# Adroddiad Cwrs Ffyngau'r Glaswelltir

Cynhaliwyd cwrs adnabod ffyngau'r glaswelltir ar y 10fed a'r 11eg Hydref 2013, gyda 15 yn bresennol. Treuliwyd y diwrnod cyntaf yng Ngerddi Botaneg Treborth ac yno roedd gan Debbie Evans, arweinydd y cwrs, arddangosfa ragorol o samplau ffyngaidd lliwgar. Ar ôl cyflwyniad byr i ffyngau'r glaswelltir, defnyddiodd Debbie'r samplau i'n cyflwyno ni i'r nodweddion amrywiol i'w defnyddio i'n helpu ni i adnabod y rhywogaethau.



Defnyddiwyd sawl synnwyr - arogli, cyffwrdd, gweld a blasu hyd yn oed - i adnabod y samplau o ffyngau capiau cwyr. Roedd rhai o aelodau'r cwrs a oedd â synhwyrau craffach na'r gweddill yn gallu arogli arogl cynnil lledr Rwsiaidd, ond roedd y rhan fwyaf yn fwy cyfarwydd ag arogleuon garlleg y samplau eraill. Ar ôl chwilio drwy'r gerddi am ychydig, cafwyd hyd i nifer rhyfeddol o ffyngau'r glaswelltir, er gwaetha'r ffaith bod torrwr gwair brwd wedi bod wrth ei waith y diwrnod cynt.

Roedd arddangosfa Debbie'n cynnwys nifer o Bastynau'r Ddaear, Tafodau'r Ddaear a Thagellau Pinc, a hefyd casgliad trawiadol o 29 o wahanol Gapiau Cwyr!

Ar yr ail ddiwrnod aeth pawb i Gefn Du, ardal o gaeau yn yr ucheldir uwch ben Llanberis. Mi fyddai'r tywydd wedi gallu bod yn well, gyda gwyntoedd cryfion yn herio'r rhai gyda'r dillad cynhesaf hyd yn oed. Er hynny, roedd amrywiaeth eang o ffyngau diddorol yn cynnal brwdfrydedd pawb drwy gydol y dydd. Gwelwyd sawl clwstwr o'r Pastwn Fioled prin, y *Clavaria zollingeri*, yn codi'n arallfydol o'r pridd. Hefyd cawsom gyfle i flasu Cap Cwyr Chwerw ffres, yr *Hygrocybe mucronella*, gan ddarganfod ei fod yn blasu'n debyg i fatri 9-folt!





Cafwyd hyd i gyfanswm o 19 o wahanol gapiau cwyr, 8 rhywogaeth o Bastynau'r Ddaear, un Tafod y Ddaear a thri *Entoloma* ar Gefn Du. Gwelwyd sawl ffwng arall, gan gynnwys *Mycena adonis,* gyda'i liwiau pinc a bricyll anhygoel, yn ddiwedd priodol iawn i ddeuddydd hynod bleserus y cwrs adnabod.

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service